

# Agenda – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel	Lleu Williams
Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Mawrth	Clerc y Pwyllgor
2023	0300 200 6565
Amser: 09.30 – 12.30	<a href="mailto:SeneddDiwylliant@senedd.cymru">SeneddDiwylliant@senedd.cymru</a>

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15 – 09.30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### 2 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Sesiwn dystiolaeth gyda chynrychiolwyr o'r meysydd Addysg Uwch a busnes

(09.30 – 10.35) (Tudalennau 1 – 17)

- Paul Slevin, Cadeirydd Gweithredol, Siambrau Cymru
- Berwyn Davies, Pennaeth Swyddfa, Addysg Uwch Cymru Brwsel
- Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru

Dogfennau atodol:

- Papur briffio gan Ymchwil y Senedd: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
- Tystiolaeth gan Brifysgolion Cymru ac Addysg Uwch Cymru Brwsel: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig)



## Egwyd

(10.35 – 10.45)

### 3 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Sesiwn dystiolaeth gyda chyrff diwylliannol a threftadaeth

(10.45 – 11.45) (Tudalennau 18 – 28)

- Eluned Hâf, Pennaeth, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
- Mali Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhyngwladol, Urdd Gobaith Cymru
- Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg a Rhagleni Cyhoeddus Amgueddfa Cymru

Dogfennau atodol:

- Tystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
- Tystiolaeth gan Urdd Gobaith Cymru Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon
- Tystiolaeth gan Amgueddfa Cymru: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon (Saesneg yn unig)
- Tystiolaeth gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Ymchwiliad i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(11.45)

### 5 Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: ystyried y dystiolaeth

(11.45 – 12.00)

## **6 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2023-24**

(12.00 – 12.05)

(Tudalennau 29 – 30)


Dogfennau atodol:

- Llythyr at Llywodraeth Cymru ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24 – xx Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

## **7 Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru: Ystyried yr adroddiad drafft ar ganfyddiadau cychwynnol y Pwyllgor**

(12.05 – 12.30)

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon



## **Wales-Ireland relations – Senedd Inquiry 2023**

### **Supporting paper in advance of the evidence session with the Senedd Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

#### **Universities Wales and Welsh Higher Education Brussels**

Universities Wales represents the interests of all universities in Wales. Our mission is to support a university education system that transforms lives through the work Welsh universities do with the people and places of Wales and the wider world. Immediately prior to the pandemic Universities Wales had been in discussion on developing closer collaboration with Irish counterparts including meetings in Dublin supported by Welsh Government and the British Irish Chambers of Commerce.

Welsh Higher Education Brussels supports Welsh universities in their European engagement through facilitating and co-ordinating activities, promoting Welsh higher education in Brussels and gathering and disseminating intelligence to the Welsh higher education sector. Ireland is a key contact for work undertaken by both the Welsh Government office in Brussels and by Welsh Higher Education Brussels as an important Member State with close links to Wales. There are good relationships with Irish organisations represented in Brussels including the Permanent Representation of Ireland to the EU, the Irish Regions European Office and Enterprise Ireland. WHEB has organised events with the Irish Regions European Office on Ireland Wales Interreg projects.

#### **Senedd Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee Inquiry into Wales – Ireland relations**

This paper provides input from Universities Wales and Welsh Higher Education Brussels to the Senedd Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee Inquiry into Wales – Ireland relations and specifically the following themes identified by the Committee:

- Wales-Ireland relations post-Brexit
- The Ireland-Wales Shared Statement and Joint Action Plan (2021-2025) as an approach to international engagement.
- The funding of future cooperation and collaborative projects between Ireland and Wales
- Priority areas for cooperation between Ireland and Wales

### ***Wales-Ireland relations post-Brexit***

1. Ireland has always been an important partner for Wales in higher education and research and this partnership has strengthened in recent years, supported in part by European programmes and funding. We value the Irish students studying in Wales recognising that they can continue to benefit from home fee status. We would be concerned if any new barriers were put in place that would limit the exchange of students in future. With Brexit meaning the end of Structural Funds including the Interreg programme, that provided significant resources for research and innovation work in Wales, it is even more important to ensure existing research collaborations and connections are maintained and developed further. This may include a potential focus on collaboration through Horizon Europe with our partners across Europe with a particular focus on Ireland as our closest EU Member State.
2. Universities in Wales and Ireland have had access to the EU research and innovation programmes that have provided a framework for research co-operation and collaboration. In the previous [Horizon 2020](#) programme there were a number of projects involving participants from Welsh universities and Irish universities but the data suggests that Wales has had more collaborative links with some other similar-sized partners such as Flanders than with Ireland. There was also no strong thematic focus for Horizon 2020 collaborations involving Welsh and Irish universities.
3. The 2014-20 Ireland Wales Interreg programme has provided €100m funding for collaborative work with €79m from the European Regional Development Fund. Twenty-three projects have received funding through the programme and 19 of these projects have involved Welsh universities and many have also involved Irish universities and Institutes of Technology. The programme has had three thematic areas focused on Cross-Border Innovation, Climate Change Adaptation in the Irish Sea area and Cultural and National Resources and Heritage. A number of other Welsh and Irish organisations have also been involved in these projects including local authorities, businesses and research organisations.
4. Given the strong thematic focus provided by the Ireland Wales programme and the significant involvement of Irish and Welsh universities in the programme projects it potentially indicates that Interreg funding provided resources for a number of research collaborations rather than Horizon 2020. As Interreg funding is concluding it will be important to build on the investments made by the Ireland Wales programme to enable Welsh researchers to be considered as useful project partners for relevant Horizon Europe proposals involving Irish research organisations. In this context it is relevant to consider how to align Welsh research activities and areas of strength with Irish research priorities in areas of the Horizon Europe programme such as Oceans Mission and the Climate Change Mission where we share the same geography and challenges. This strategic approach could potentially enable a greater level of collaboration between researchers in Wales and Ireland.

***The Ireland-Wales Shared Statement and Joint Action Plan (2021-2025) as an approach to international engagement.***

5. We welcome the emphasis on the Wales- Ireland relationship provided by the Welsh Government's International Strategy, published in January 2020, that outlines Wales' international ambition following the EU referendum. The International Strategy stresses the importance of Wales current relationship with Ireland and prepared the policy rationale for the Joint Action Plan. The Ireland Wales [Joint Action Plan and Shared Statement](#) was published in March 2021. It is encouraging that education and research is identified as one of the six key focus areas in the Plan.
6. We are supportive of this approach which provides a framework for activity between the two countries and it is appropriate that education and research are included within the framework. Reflecting the history and breadth of connections the Shared Statement and Joint Action Plan is probably the most detailed outline of bilateral activity between Wales and another country or region. We look forward to update on the Joint Action Plan including education and research activities later this year.

***The funding of future cooperation and collaborative projects between Ireland and Wales***

7. We were disappointed that the UK Government decided not to participate in the current Interreg programme period running from 2021-28. The Welsh Government together with a number of other organisations around the UK have undertaken work in their geographical regions to maintain important cross-border connections with relevant close partners in France, Belgium, the Netherlands and Ireland. Following a period of discussion and consultation with stakeholders the Welsh Government published its [Irish Sea Framework](#) as part of its wider [Agile Cymru](#) work in February 2023 outlining its approach to building on previous programmes to maintain collaborations in the Irish Sea Space. The Framework has three thematic areas: sustainable blue economy, innovation strengths and communities and culture. Welsh researchers have been involved in the discussions and consultations around the development of this Framework and are supportive of its aims and thematic focus as well as its flexibility and links to the Ireland Wales programme. However, it is currently supported by very limited funding compared to the funding available through European programmes in previous periods. We anticipate a funding call shortly for further projects within the Irish Sea Framework.
8. In 2021/22 the Welsh Government ran a call funded through its SCoRE Cymru strand focused on Horizon Europe engagement and increasing Irish Sea co-operation. Based on the budget available, 15 of the 24 applications were selected for funding. Of these, nine projects with a grant value of c.£36,000 involved direct cooperation with Ireland and c.70% of supported projects with a value of around £25,000 were led by Welsh universities.

### **Priority areas for cooperation between Ireland and Wales**

9. The priorities identified in the Irish Sea Framework build on the priorities of the [Ireland Wales programme 2014-20](#). This approach should enable existing connections to be maintained and developed further but there may be other opportunities that we need to be positioned to respond to in areas such as the [Horizon Europe](#) programme and multilateral engagement with Ireland as part of wider Atlantic Area or other geographical and thematic networks. If the UK associates to Horizon Europe this may be easier but even if we remain a third country using these research connections will be even more important to enable researchers based in Wales to collaborate and network with partners in Ireland and across Europe. The level of investment in research and innovation in Ireland coupled with Ireland's success in securing competitive research funding is significant and the development of a number of new regional and applied universities that will receive significant funding, both national funding and European funding, over the next few years will strengthen Irish research further.

There are a number of areas to consider in relation to the relationship with Ireland:

- *As Wales transitions from using Interreg funding to support a number of research collaborations with Irish universities it will be important to build on these connections to work together in the Horizon Europe programme in particular in areas such as the Oceans and Climate Change Adaptation Mission.*
- *It will be important for the sector in Wales to consider how a range of sector-led initiatives in research collaboration and international collaboration can contribute to strengthened Wales – Ireland relations in higher education and research.*
- *It may also be useful to explore education policy issues with counterparts in Ireland including the civic mission dimension, widening participation and language/culture issues.*



Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon | Wales–Ireland relations

Ymateb gan: Cyngor Celfyddydau Cymru & Celfyddydau Rhyngwladol Cymru | Response from: Arts Council of Wales & Wales arts International

---

## Cyflwyniad

1. Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru. Rydym ni'n atebol i Senedd Cymru ac yn gyfrifol i Lywodraeth Cymru am y ffordd mae'r arian y maen nhw'n ei ddarparu i ariannu'r celfyddydau yng Nghymru yn cael ei wario. Rydym hefyd yn ddosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru.
2. Mae'r dystiolaeth hon yn cael ei chyflwyno gan Gyngor Celfyddydau Cymru, wedi ei llywio gan wybodaeth a phrofiad ein hasiantaeth fewnol ryngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.

## Cysylltiadau Cymru-Iwerddon wedi brecsit

3. Ar ôl brecsit, atgyfnerthwyd pwysigrwydd Iwerddon fel ein cymydog agosaf yn yr Undeb Ewropeaidd. Ar lefel ddiwylliannol, mae parodrwydd i barhau â chydweithrediadau rhwng y sectorau celfyddydol, ond fel gyda llawer o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, mae'r canfyddiad o'r Deyrnas Unedig wedi newid ers refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ac ymadael â'r Undeb. Bu'n rhaid i ni gynyddu ein hymdrehion i barhau i gefnogi a chryfhau cysylltiadau ag Iwerddon.
4. Mae bodolaeth yr Ardal Deithio Gyffredin wedi parhau ac felly mae wedi mynd rhywfaint o'r ffordd i alluogi symud pobl rhwng Cymru ac Iwerddon sy'n ddefnyddiol yn sector y celfyddydau wrth weithio ar draws ffiniau ar brosiectau tymor byr a thymor hwy. Fodd bynnag, mae'r newidiadau o ran symud nwyddau wedi bod yn un y mae sector y celfyddydau (yn enwedig y celfyddydau perfformio a'r celfyddydau gweledol) wedi gorfol ymadasu iddyn nhw.
5. Mae ein menter, [Cefnogi ymweliadau creadigol i'r DU ac o'r DU | Arts Infopoint UK | Gwybodfan Celf y Deyrnas Unedig](#), mewn partneriaeth â'n chwaer gynghorau celfyddydau ar draws y Deyrnas Unedig, wedi cefnogi'r sector wrth edrych ar faterion ymarferol i artistiaid gan ganolbwytio'n bennaf ar ddod i'r Deyrnas

Unedig, ond hefyd gyda mynd i'r Undeb Ewropeaidd gan fod llawer o gwestiynau ymarferol wedi'u codi gan y sector. Byddwn yn edrych ar ddatblygu gwybodaeth benodol i artistiaid sy'n gweithio rhwng Prydain ac Iwerddon yn ddiweddarach yn 2023.

### **Ymagwedd bresennol at ymgysylltu dwyochrog rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon ac a yw'n addas i'r diben ar ôl brecsit**

6. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Thîm Cysylltiadau Rhyngwladol Llywodraeth Cymru a swyddfa Llywodraeth Cymru yn Iwerddon. Er enghraifft, roeddem wedi helpu i gynnal digwyddiadau wythnos Cymru yn Nulyn 2020. Lansiom ni hefyd ein [deialog Gwrando - Dewi Padraig](#) ym mis Mai 2022 yn Nulyn.
7. Roedd cael swyddfa Llywodraeth Cymru yn Iwerddon a sefydlu ls-gennad Iwerddon yng Nghaerdydd a'r gefnogaeth a roddwyd gan y ddwy lywodraeth yn benodol i sector y celfyddydau a diwylliant o fudd i sector y celfyddydau yng Nghymru wrth ddatblygu cysylltiadau ag Iwerddon.
8. Er ein bod yn dal i weld effaith lawn ar ôl brecsit (ac ar ôl y pandemig) ar waith rhyngwladol yn sector y celfyddydau, rydym yn ailadrodd bod angen hyd yn oed rhagor o ymdrechion ar ôl brecsit i ddatblygu a chryfhau ein cysylltiadau ag Iwerddon.

### **Y Datganiad a Rennir Cymru-Iwerddon a Chynllun Gweithredu ar y Cyd (2021-2025) fel dull o ymgysylltu rhyngwladol**

9. Er bod rhai meysydd (er enghraifft, Gwybodfan Celf y Deyrnas Unedig) lle rydym ni'n gweithio ar draws 4 gwlad y Deyrnas Unedig gydag Iwerddon, mae'n ddefnyddiol iawn i ni gael dull a chynllun penodol i Gymru, gan fod yma ddiwylliant wedi'i ddatganoli ac oherwydd inni allu cael perthynas ddwyochochrog â'n hasiantaethau cyfatebol yn Iwerddon.
10. Croesawom gynnwys Diwylliant, Iaith a Threftadaeth fel thema allweddol yn y Datganiad a Rennir. Un o'r camau gweithredu yw "cefnogi'r berthynas gref a chynyddol rhwng ein Cynghorau Celfyddydol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Diwylliant Iwerddon drwy gyfarfodydd grŵp o randdeiliaid rhithiol i ddatblygu a gwella cydweithio ymhellach". Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi parhau i feithrin y berthynas rhwng yr asiantaethau, gyda'r bwriad o ailsefydlu'r grŵp rhanddeiliaid rhithiol nawr y cafwyd newidiadau mewn uwch arweinyddiaeth ym mhob un o'r 3 asiantaeth dros y 2 flynedd ddiwethaf.

### **Ariannu prosiectau cydweithredu a chydweithio yn y dyfodol rhwng Iwerddon a Chymru**

11. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cefnogi nifer o brosiectau artistig drwy gyfuniad o'n Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol a rhywfaint o arian strategol. Er enghraifft, yn 2022 cefnogwyd arddangosfa unigol yr artist gweledol Sean Edwards, *Chased Losses*, yn Oriel a Stiwdios Bar y Deml, Dulyn yn ogystal â gosodiadau golau a sain Jony Easterby *Remnant Ecologies* fel rhan o *Wyl Ymylol Dulyn*. Rydym ni wedi cefnogi cerddorion ac artistiaid Cymraeg i gymryd rhan mewn perfformiadau cydweithiol yn y Gaeltacht drwy Gymdogion Celtaidd yn 2019 a 2022. Cynhaliom REIC x Y Stamp, perfformiad Barddoniaeth a Gair Llafar amlieithog i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn 2020 i archwilio'r cysylltiadau gweithredol rhwng y beirdd. Roedd y digwyddiad yn cynnwys perfformiadau gan Ciara Ní É, Dairena Ní Chinnéide, Taylor Edmonds, Llio Maddocks a Siân Miriam yn Gymraeg, Gwyddeleg a Saesneg.
12. Rydym hefyd wedi treialu Cronfa Ryngwladol y 4 Gwlad yn 2022, gyda nifer o brosiectau Deyrnas Unedig / Iwerddon (gyda phartneriaid yng Nghymru). Un enghraifft yw'r cywaith rhwng Gŵyl Articulture / y Dyn Gwyrdd (Cymru); Articulation / Surge (Yr Alban); Out There Arts (Lloegr) ac ISACS / Gŵyl Spraoi (Iwerddon). Roedd y grant, ochr yn ochr ag arian arall, yn cefnogi datblygu artistiaid a chyfleoedd rhwydweithio proffesiynol ynghyd â theithio gweithiau calf awyr agored ar draws yr holl genhedloedd.
13. Fodd bynnag, symiau cymharol fach yw'r rhain, ac mae sector y celfyddydau yng Nghymru yn teimlo colled ddiamheul arian Ewrop Greadigol ac arian Interreg Cymru-Iwerddon a mynediad at gymryd rhan yn y prosiectau hyn a'u rhwydweithiau. Byddai o fudd cael cyfleoedd ariannu sy'n benodol i Iwerddon ar gyfer Cymru. Ar gyfer sector y celfyddydau a diwylliant, gallai hyn ysgogi arian ar gyfer prosiectau mewn meysydd o flaenoriaeth benodol a restrir o dan y cwestiynau nesaf, ond yn arbennig rydym yn awyddus i ddatblygu prosiect pedair gwlad y Deyrnas Unedig ac Iwerddon o amgylch cerddoriaeth a theithio cynaliadwy (yn enwedig os yw Manceinion yn llwyddiannus yn ei chais i gynnal WOMEX yn 2024).

### **Meysydd o flaenoriaeth ar gyfer cydweithrediad rhwng Iwerddon a Chymru**

O safbwyt Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru rydym yn blaenoriaethu'r canlynol:

14. Y Celfyddydau ac lechyd a Lles – cefnogom ni rai o'r llunwyr polisi ac ymarferwyr blaenllaw yng Nghymru er mwyn iddynt ddechrau sgwrs gyda phartneriaid yn Iwerddon yng nghynhadledd Celfyddydau ac lechyd Meddwl Iwerddon Greadigol yn 2020 ac roedd awydd mawr i rannu eu profiad
15. Dysgu iaith a gwrandu. Fel rhan o raglen y Cenhedloedd Unedig ar gyfer leithoedd Brodorol 2022-2032, rydym yn cefnogi artistiaid i wrando ar ieithoedd brodorol drwy ein rhaglen

Gwrando. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch yn Iwerddon. Mae diddordeb yn sector y celfyddydau Cymraeg yn Iwerddon a chymerodd Cyngor Celfyddydau Cymru ran mewn dirprwyd Cyngor Iwerddon-Prydain (is-grŵp ar yr ieithoedd lleiafrifol) i Conamara / Connemara yn 2022

16. Datblygu llwybrau teithiol cynaliadwy ar gyfer cwmnïau'r celfyddydau perfformio / cerddorion a rhannu ymarfer da megis [Menter Celfyddydau Gwyrdd](#) Fforwm Theatr Iwerddon. Mae hyn yn rhywbeth rydym yn awyddus i'w ddatblygu dros y blynnyddoedd nesaf, o safbwyt cynaliadwyedd, ond hefyd yn edrych ar fodelau teithiol newydd mewn cyd-destun ôl-brecsit
17. Dysgu gan eraill a rhannu syniadau am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
18. Cyfleoedd cyfnewid i bobl ifanc, gan adeiladu ar y gwaith mae'r Urdd wedi ei ddatblygu gyda TG Lurgan
19. Cerddoriaeth – parhau i feithrin y berthynas bwysig o gwmpas:
  - a. Gorwelion ym mhartneriaeth WOMEX yn 2023, 10 mlynedd ar ôl creu'r bartneriaeth yn WOMEX 13 yng Nghaerdydd
  - b. Partneriaeth Lleisiau Eraill Aberteifi ac Other Voices An Daingean / Dingle
  - c. Meithrin Cysylltiadau Celtaidd yng Nghyflwyno Arddangos yr Alban a gŵyl An Oriant / Lorient yn Llydaw

#### **Cyfleoedd i ddatblygu cysylltiadau seneddol rhwng y Senedd a'r Oireachtas**

20. Mae cyfle digynsail i'r Senedd a'r Oireachtas ganolbwytio ar y cyfle i ddysgu o'r gwelliant a wnaed gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2015 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a wnaeth Diwylliant yn bedwaredd golofn datblygiad cynaliadwy. Cymru oedd y genedl gyntaf i wneud hynny a ffrwyth uniongyrchol hyn oedd cael y nod llesiant am Ddiwylliant a'r Gymraeg. Ysbrydolwyd y cam hwn gan yr [Agenda 21](#) ryngwladol - Dinasoedd Unedig a Llywodraethau Lleol.

Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

17 Chwefror 2023

---



## **Ymateb Urdd Gobaith Cymru i ymchwiliad Senedd Cymru i gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon**

### **Chwefror 2023**

Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru, mudiad ieuengtiau mwyaf Cymru yn 1922, gyda'r nod i sicrhau cyfleoedd a phrofiadau, trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, i holl ieuengtiau Cymru ddatblygu'n ddinas yddion cyflawn hyderus. Rydym wedi meithrin cenedlaethau o bobl ifanc i fod yn falch o'u gwlad, yn agored i'r byd ac yn ymgorfforiadau o'n hiaith a'n diwylliant, yn ogystal â meddu ar y gwerthoedd byd-eang a berchir yng Nghymru. Mae'r Urdd yn hanfodol i ddyfodol yr iaith Gymraeg ac i Gymru. Nid oes ei thebyg yn y byd ac rydym yn cael ein cydnabod yn rhyngwladol am arwain y ffordd yn narpariaeth ieuengtiau.

Lluniwyd yr ymateb hwn ar sail y prosiect sydd ar y cyd rhwng yr Urdd a TG Lurgan yn yr Iwerddon. Rydym yn derbyn cyfraniad ariannol wrth Lywodraeth Cymru tuag at ddarparu'r prosiect hwn.

Gwelir cyfeiriad penodol at y cynllun hwn yn y ddogfen *Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru (2021-2025) fel dull o ymgysylltu rhyngwladol*.

Cefnogi'r gwaith o greu partneriaethau rhwng ein sefydliadau ieuengtiau sydd, yn eu tro, yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'r Wyddeleg; ac yn benodol, mynd ati i hwyluso a hyrwyddo'r rhaglen bartneriaeth dair blynedd rhwng Coláiste Lurgáin ac Urdd Gobaith Cymru er mwyn rhannu arferion gorau a'r hyn a ddysgwyd o ran technoleg ddigidol.

### **Amlinelliad o'r bartneriaeth rhwng yr Urdd a TG Lurgan yn yr Iwerddon**

Mae Coláiste Lurgan yn ysgol haf Gwydddeleg i bobol Ifanc byw a bod yn y Gwydddeleg. Mae TG Lurgan yn rhan o Coláiste Lurgan, ac yn arbenigo yn rhyddhau dehongliadau o ganeuon poblogaidd gyda geiriau newydd yn yr iaith Wyddeleg.

Lansiwyd y bartneriaeth rhwng yr Urdd a TG Lurgan ym mis Mawrth 2020 gyda'r bwriad o hyrwyddo'r Gymraeg a iaith Wyddeleg ymhliith pobl ifanc drwy greu cyd-gynyrchiadau a rhannu diwylliannau Cymru ac Iwerddon. Trwy'r bartneriaeth, mae pobl ifanc Cymru a'r Iwerddon yn cyd-gynhyrchu fideos cerddoriaeth o gâneuon adnabyddus boblogaidd, yn y Gymraeg a'r Gwydddeleg, a'u rhannu yn fydd-eang i rannu diwylliannau Cymru ac Iwerddon. Sianel YouTube TG Lurgan yw'r sianel YouTube fwyaf poblogaidd mewn iaith leiafrifol yn y byd.

Cychwynnodd y bartneriaeth yn ystod y cyfnod covid a chrëwyd cyd-gynyrchiadau rhithiol.

**2020 - "Golau'n Dallu – Dallta ag na Soisce"** cyd-gynhyrchiad Cymraeg/Gwydddeleg cyntaf erioed, o'r gân poblogaidd "Blinding Lights". 86,000 wedi ei wylio ar draws pob llwyfan yn ystod y 7 diwrnod cyntaf iddo gael ei ryddhau.

**2021 - "Gwenwyn – Nimhneach"**, fersiwn o gân Gymraeg y band Alffa sef y gân Gymraeg cyntaf i'w chael ei chwaraeon miliwn o weithiau ar Spotify.

**2022 – Uisce Faoin Droichead / Dŵr Dan Bont** gan Adele. Teithiodd 16 person ifanc i wersyll haf TG Lurgan yng Nghonnemara, yn ystod yr ymweliad 4 diwrnod, ar y cyd gyda phobl ifanc TG Lurgan cyflawnwyd y canlynol:-

- Ymarfer y gân 'Dŵr dan bont' can Adele
- Recordio a ffilmio'r fideo ar gyfer sianel YouTube TG Lurgan
- Mynychu gweithdai offerynnol a chyd ganu



- Mwynhau yng nghwmni ei gilydd a dathlu'r Gymraeg a Gwydddeleg a phwysigrwydd defnyddio'r ieithoedd fel pobl ifanc
- Arwain gweithdai dawnsio Gwerin Gymreig a Chlocsio a dysgu dawnsio gwerin Wyddeleg.
- Cymdeithasu a threulio amser yn rhannu'r ddau ddiwylliant ac ysbrydoli ei gilydd i wneud defnydd o'r Gymraeg a Gaeleg trwy gelfyddydau.

### Dyfyniadau

*"Ar ôl byw yn rhan fwyaf o fy arddegau yn ystod y pandemig, roedd hwn yn brofiad anhygoel sy'n golygu cymaint mwy nag y gall rhywun ei esbonio."*

*"Mae'r daith hon wedi dysgu mwy i mi am yr iaith Gwydddeleg ac wedi cynyddu fy ngwerthfawrogiad o'r Gymraeg."*

Dyfyniad gan un o aelodau TG TG Lurgan :

*"I came to Lurgan not knowing how I would get on. I was anxious about meeting new people but excited at the same time, but meeting all of you from Wales was probably the highlight of my trip. Getting to meet and share an experience with other teenagers that have the same passion for their mother tongue as I do was surreal and honestly really comforting. We are all trying to keep in contact and plan on meeting up at some point. We shared plenty of laughs, bonded over our collective love for musicals (especially Mamma Mia), and had some really amazing jam sessions in the music room. Getting to learn Welsh for the collaboration on Water Under The Bridge was really cool and I for one am really excited to see how it comes out. All in all, my general experience in Lurgan this year was amazing, but meeting all of you was the best part!"*

### Sylwadau'r Urdd yn unol â phrif feisydd yr ymchwiliad

**Y dull presennol o ymgysylltu dwyochrog rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon ac a yw'n addas i'r diben ar ôl Brexit.**

O brofiad yr Urdd o gydweithio ar brosiect pobl ifanc, mae wedi

- datblygu balchder cenedlaethol a rhyngwladol a chodi statws ieithoedd lleiafrifol ymysg pobl ifanc
- dod â phobl sydd yn siarad iaith leiafrifol at ei gilydd
- datblygu arfer da o greu a rhannu cynnwys digidol
- galluogi i ni fel mudiad i gymharu â meinchnodi ein darpariaeth
- dangos i bobl ifanc y norm o ddwyieithrwydd a hynny o fewn cyd-destun cymdeithasol tu allan i'r gyfundrefn addysg.

### **Cyd-ddatganiad a chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru (2021-2025) fel dull o ymgysylltu rhyngwladol.**

Rydym wedi bod wrth ein boddau i gael ein cynnwys o fewn yr elfen, Diwylliant, Iaith a Threftadaeth y cynllun gweithredu. I ni fel mudiad ac i'r bobl ifanc mae wedi bod yn:-

- brofiad cadarnhaol i bobl ifanc Cymru ac Iwerddon
- ddull cyfoes, dynamig a chyffrous o gynnwys pobl ifanc yng Nghymru ac yn Iwerddon ac yn ei rhannu yn fyd eang
- werth cymdeithasol a phersonol i ieuengtir Cymru
- gyfle i staff yr Urdd i rannu arfer da ac i ddysgu gyda phwyslais ar ieithoedd lleiafrifol
- agor y drws i ddatblygu partneriaethau newydd yn yr Iwerddon



- dangos y Gymraeg i gynulleidfa newydd tu allan i Gymru. E.e. sylw mewn 13 o wledydd gwahanol a sylw yn y wasg poblogaidd e.e. The Independent, The Sun a Joe.ie

### **Ariannu prosiectau cydweithredu a chydweithio yn y dyfodol rhwng Iwerddon a Chymru**

Ni fyddai'r cydweithio rhwng yr Urdd a TG Lurgan wedi bod yn bosibl heb gyllid Llywodraeth Cymru a'r cysylltiadau ar lefel y gwasanaeth sifil rhwng Cymru ac Iwerddon.

Rydym wedi llwyddo:-

- i greu cyfle cynhwysol i ddatblygu prosiect gall unrhyw berson ifanc o unrhyw gefndir fod yn rhan ohono.
- ar y cyd, i roi y cyfleoedd a chodi statws diwylliannol ac ieithyddol Cymru ac Iwerddon
- i greu model o gyd weithio rhwng yr Urdd ac adran Ryngwladol Llywodraeth Cymru sydd yn dathlu diwylliant a bywiogrwydd pobl ifanc

### **Meysydd blaenoriaeth ar gyfer cydweithredu rhwng Iwerddon a Chymru**

O'n brofiad hyd yma, hoffem weld pwysais ar y blaenoriaethau canlynol:-

- Esblygu'n bellach, gydag anogaeth Adran Ryngwladol yn Iwerddon , partneriaethau rhwng mudiadau ieuencnid Iwerddon a'r Urdd.
- Rhannu arfer da darpariaeth yr Urdd eraill am y tro cyntaf yn Ewrop trwy , trwy gyflwyno'r pecynnau Chwarae yn y Gymraeg sydd yn codi hyder siaradwyr newydd mewn iaith leiafrifol
- Cyfleoedd ehangach i gydweithio i ddatblygu a rhannu arfer da gwaith darpariaeth ieuencnid mewn iaith leiafrifol

## An inquiry into Wales – Ireland relations by the Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

### **Comments submitted by Amgueddfa Cymru – Museum Wales**

Responses are focused on Amgueddfa Cymru's relationship with National Museum Ireland.

- Wales-Ireland relations post-Brexit**

Amgueddfa Cymru first established a Memorandum of Understanding (MoU) with the National Museum of Ireland (NMI) in February 2019. This was renewed in 2021 to mark the continued commitment of the strategic relationship between both national museums and in response to the Ireland-Wales Shared Statement & Joint Action Plan (2021-2025).

- Current approach to bilateral engagement between the Welsh and Irish governments and whether it is fit for purpose post-Brexit.**

In terms of the cultural sector, our approach to bilateral engagement between the Welsh and Irish Governments is working well. NMI is our closest international partner. We are discussing a number of joint initiatives and share a commitment to cultural participation and widening engagement with our National Museums.

- The Ireland-Wales Shared Statement & Joint Action Plan (2021-2025) as an approach to international engagement.**

Amgueddfa Cymru is committed to the Ireland-Wales Shared Statement & Joint Action Plan (2021-2025) as an approach to developing our relationships with Ireland. Our involvement in political and diplomatic engagements e.g. supporting Wales Ireland Forum, [ ] has provided a platform for us to exchange policy perspectives, share learning and build collaborations to strengthen our relationship with NMI and the Irish Museums Association. The MoU between National Museums is enabling us to frame this work as part of delivering against the Ireland-Wales Shared Statement & Joint Action Plan (2021-2025).

In response to the Joint Action Plan, we have developed five pillars of focus for our ongoing strategic partnership. These place an emphasis on areas of shared interest, as well as those especially relevant to wider Museum practice in the wake of Brexit, COVID-19 and other global challenges. The five pillars respond in particular to the Culture, Language and Heritage area of cooperation in the Joint Action Plan, but also reflect other areas of co-operation in the Plan. They are currently largely focused on knowledge exchange and on sharing ways of working. The five pillars of mutual beneficial outcomes are as follows:

- **Strategic Development, Peer Mentorship and Learning** - NMI and Amgueddfa Cymru have establishing opportunities for peer review and learning to evaluate, assess and improve our ways of working. For example

- a *Cultural Rights, Cultural Democracy* learning and development conference in Caernarfon with museum workers, leading researchers and government representatives from Cymru, Éire, Alba, Kernow, Breizh, North and Latin America.
- **Decolonisation** - Both Amgueddfa Cymru and NMI are developing strategic initiatives, policies and procedures that address the overall process of decolonisation within our institutions.
  - **Climate and Biodiversity** - We are collaborating on best practice models for museums with extensive Natural History collections, and the opportunities these present.
  - **Mobility of Collections** - As national museums with multiple site locations in both rural and urban contexts, we are sharing methods of working to enable greater mobility of national collections across the communities we serve.
  - **Future Collaboration**- We are also identifying opportunities for future collaboration. For example, supporting the development of the Welsh and Irish languages.
- **The funding of future cooperation and collaborative projects between Ireland and Wales.**  
There are opportunities in the future to develop co-funded cultural initiatives between Ireland and Wales although the post-Brexit European funding situation is making this more challenging. Funding is limited and providing seed funding to pilot collaborative initiatives would seem a reasonable way forward.
  - **Priority areas for cooperation between Ireland and Wales.**  
In terms of Culture, Language and Heritage it would be good to build on the co-operation that has already been established within individual sectors (such as Arts, Museums and Libraries), to develop a wider co-operation across the cultural sector. This could bring together local and national cultural institutions in the creative and cultural sector to explore closer collaboration on a broader scale.

Manon Edwards Ahir  
**Pennaeth Cynllunio a Materion Allanol**  
Head of Planning & External Affairs

Nia Williams  
**Cyfarwyddwr Addysg a Rhagleni Cyhoeddus**  
Director of Learning & Public Programmes

24/02/2023

# Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon

## Tystiolaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Mae'r Llyfrgell yn diolchgar am y cyfle i gael cyfrannu tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol. Fel sefydliad diwylliannol sy'n gyfrifol am gasglu a deunydd Cymreig a Cheltaidd mae nifer o enghreiftiau ble mae Llyfrgell wedi cydweithio ac yn parhau i gydweithio gyda sefydliadau a mudiadau yn Iwerddon.

### Adnau Cyfreithiol

Yn ei rôl fel unig Lyfrgell Adnau Cyfreithiol Cymru mae'r Llyfrgell yn cydweithio agos gyda Coleg y Drindod, Dulyn ar gasglu a phrosesu deunydd Adnau Cyfreithiol y Deyrnas Unedig (DU) ac Iwerddon. Mae'r deunydd hyn yn cynnwys cyhoeddiadau print (llyfrau, papurau newydd) a digidol (gwefannau, e-lyfrau). Mae ddeddfwriaeth Legal Deposit Libraries Act 2003 a'r Legal Deposit Libraries (Non-Print Works) Regulations 2013 yn caniatau i'r Llyfrgell Genedlaethol ynghyd â llyfrgelloedd adnau cyfreithiol eraill y DU ac Iwerddon (Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Prifysgol Caergrawnt, Llyfrgell y Bodleian, Rhydychen, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, Llyfrgell Coleg y Drindod, Dulyn). Mae'r cydweithio hwn yn fod i rannu arbenigedd ac i feithrin perthnas agos gyda Llyfrgelloedd fel Coleg y Drindod, Dulyn. Oherwydd newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth yn Iwerddon mae derbyn eitemau o'r Iwerddon yn fwy heriol. Nid yw'r newidiadau hyn o ganlyniad i Brexit. O ran effaith uniongyrchol Brexit ar Adnau Cyfreithiol, gan fod eitemau o'r Iwerddon yn croesi'r ffin fe fu i Brexit ychwanegu at gost casglu eitemau gan fod cost a gwaith papur ychwanegol er mwyn sicrhau fod cyhoeddiadau print yn gallu cyrraedd y DU.

### Casgliadau a'r Potensial ar gyfer Cydweithio

Fel y mae Cynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru (2021-2025) yn cydnabod mae 'Diwylliant, iaith a threftadaeth' yn ardal cydweithio sy'n cynnig nifer o gyfleoedd. Yn aml, mae casgliadau unigryw yn cynnig cyfleoedd i rannu a llunio prosiectau sy'n gwella cysylltiadau rhwng y ddwy wlad. Er enghraift, mae casgliad o lawysgrifau Gwyddelig wedi ei ddefnyddio fel ceisiadau ar gyfer prosiectau ac ymchwil uwchraddedig. Mae prosiect diweddar y Llyfrgell i sefydlu Archif Gerddorol yn golygu fod perthynas ddiddorol gyda cerddoriaeth draddodiadol Iwerddon â'r Taisce Cheol Duchais Eireann (Irish Traditional Music Archive). Fel y byddech yn tybio, mae llu o cysylltiadau gydag Iwerddon ar draws y Casgliadau Cenedlaethol o archifau ystadau i archifau gwleidyddol yn ogystal a cysylltiadau llenyddol a diwylliannol eraill. Mae archifau'r International Celtic Congress hefyd ar gadw yn y Llyfrgell yn Aberystwyth. O ran datblygu cysylltiadau seneddol rhwng y Senedd a'r Oireachtas, fel sefydliad sy'n derbyn ac yn gofalu am archifau Senedd Cymru mae cyfle yma i edrych ar brosiectau ymchwil mewn perthynas ag archifau'r ddau sefydliad.

### Gweithgareddau Eraill

Mae'r staff y Llyfrgell yn cefnogi nifer o brosiectau. Bu coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn gyfle i feithrin cysylltiadau ag Iwerddon gyda nifer o weithgareddau yn ffocysu ar y Cysylltiad rhwng Iwerddon a Fron-Goch ger y Bala ble y carcharwyd 1,800 o Wyddelod mewn gwersyll carcharorion yn 1916. Un enghraift gyfredol arall yw prosiect Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth (Coastal Uplands: Heritage and Tourism ([cuphat.aber.ac.uk/](http://cuphat.aber.ac.uk/))). Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Aberystwyth a University College Dublin i casglu gwybodaeth am ardaloedd a fydd yn arddangos treftadaeth naturiol a diwylliannol ardaloedd ucheldirol arfordirol yn Iwerddon a Chymru i gynyddu mathau cynaliadwy o dwristiaeth ynddynt, gan arwain felly at greu bywoliaeth, cymunedau ac amgylcheddau mwy cynaliadwy. Mae'r Llyfrgell wedi bod yn cefnogi'r gwaith hwn trwy gynnal sesiynau sy'n galluogi cymunedau i gasglu gwybodaeth am yr ardaloedd dan sylw a'i llwytho i Wikipedia. O ran gwaith Wikipedia'n ehanach mae'r Llyfrgell yn cyfrannu hefyd at grwp Wici Celtaidd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi datblygiad deunydd celtaidd ar y platfform Wiki. Yn y maes diwylliannol hefyd mae cyfleon i rannu arbengiedd ym maesydd fel rheoli data, rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer cefnogi economi sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae ein cysylltiadau gyda sefydliadau fel y Digital Repository of Ireland (DRI) yn cynnig cyfleon pwysig i ddysgu a chydweithio yn y maes hwn.

### **Datblygiadau Pellach**

Mae Iwerddon yn cael ei nodi fel un o'r blaenoriaethau yn Strategaeth Ryngwladol y Llywodraeth a gyhoeddwyd yn Ionawr 2020. Yn ogystal, mae'r Cyd-ddatganiad a Chynllun Gweithredu ar y Cyd Iwerddon-Cymru (2021-2025) yn rhoi mwy o bwyslais ar natur y cysylltiadau y mae'r Llywodraeth am eu gweld yn datblygu. Bydd y Llyfrgell yn datblygu Strategaeth Ryngwladol newydd yn ystod y flwyddyn nesaf ac felly mae cyfleoedd i ystyried lle cysylltiadau a'r Iwerddon yn strategaeth honno.

**15-03-2023**

**DIWEDD**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon